RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL: 12/2020
DYDDIAD CYHOEDDI: 03/03/20

# Gwerthusiad o Safleoedd Cyflogaeth Strategol: Adroddiad Interim

## Crynodeb

### 1. Nodau a Methodoleg yr Ymchwil

1.1 Yn 2019 penododd Llywodraeth Cymru Hatch Regeneris ac OB3 i gynnal gwerthusiad o weithrediad y Safleoedd Cyflogaeth Strategol (Strategic Employment Sites - SES). Ariennir y gweithrediad yn rhannol gan ERDF o dan Echel Blaenoriaeth 4 (Cysylltedd a Datblygu Trefol) Rhaglen Weithredol Gorllewin Cymru a'r Cymoedd) 2014-20 .

1.2 Nod SES yw cynyddu nifer y safleoedd cyflogaeth o safon uchel er mwyn denu mewnfuddsoddiad i Gymru a chefnogi twf busnesau Cymru. Mae'n gwneud hyn drwy ddarparu seilwaith sylfaenol ac ymgymryd â gwaith paratoi safleoedd ar bedwar safle mewn gwahanol rannau o Gymru:

- Brocastle, Pen-y-bont ar Ogwr – 45.96 ha
- Bryn Cefni, Ynys Môn – 1.82 ha
- Dwyrain Cross Hands, Sir Gaerfyrddin – 8 ha
- Tŷ Du, Nelson, Caerffili - 3.8 ha

1.3 Roedd nodau'r ymchwil fel a ganlyn:

- Asesu a oedd sail resymegol gadarn i'r prosiect ac a oedd y prosiect yn gyson â pholisïau a strategaethau Llywodraeth Cymru
- Asesu a oedd y prosiect wedi'i ddylunio mewn ffordd a oedd yn addas at y diben ac yn seiliedig ar theori newid gadarn

- Asesu’r cynnydd cynnar a wnaed ar y prosiect ac a yw’r prosiect ar y trywydd iawn i gyflawni ei allbynnau
- Adolygu’r prosesau rheoli a monitro project a roddwyd ar waith gan Lywodraeth Cymru ac a yw’r rhain yn cefnogi’r gwaith o gyflawni’r prosiect yn effeithiol
- Archwilio i ba raddau mae gweithrediadau SES yn rhoi amcanion Themâu Trawsbynciol WEFO ar waith ac yn eu cyflawni.

1.4 Defnyddiwyd amrywiaeth o ddulliau yn cynnwys adolygiadau o ddogfennau, dadansoddi data monitro ac adroddiadau cynnydd, dadansoddi tueddiadau’r farchnad eiddo ac ymgynghoriadau â staff cyflawni’r prosiect a rhanddeiliaid eraill y prosiect.

## 2. Canfyddiadau Allweddol

**Mae SES wedi’i alinio’n gryf â strategaethau a pholisïau Llywodraeth Cymru**

2.1 Mae Ffyniant i Bawb: Y Cynllun Gweithredu ar yr Economi gan Lywodraeth Cymru yn amlygu’r angen am ymyriadau cyhoeddus mewn rhannau o Gymru ble mae tystiolaeth o fethiant y farchnad. Dyma sail resymegol SES; yn hynny o beth, mae wedi’i alinio’n gryf â’r strategaeth hon.

2.2 Mae nifer o strategaethau yn tanlinellu pwysigrwydd creu cyflogaeth fel ffordd o drechu tlodi ac anfantais yn y farchnad lafur mewn ardaloedd difreintiedig. Mae SES yn alinio â hyn, er y gallai ei effaith fod wedi bod yn fwy pe bai amodau'r farchnad lafur leol wedi bod yn un o'r meini prawf ar gyfer dewis safleoedd.

2.3 Mae strategaethau a pholisïau hefyd yn galw am roi mwy o ystyriaeth i’r ffactorau eraill sy’n effeithio ar les, gan gynnwys cynaliadwyedd, cydraddoldeb, cydlyniant cymunedol a gwarchod y Gymraeg a diwylliant Cymreig. Mae’r ystyriaethau hyn wedi’u hymgorffori yn nyluniad SES ac yn ystod y cyfnod cyflawni cynnar.

**Mae tystiolaeth dda o ran yr angen i ymyrryd**

2.4 Mae SES wedi’i ddylunio i greu cyfleoedd gwaith newydd mewn rhannau o Gymru ble mae’r cyfraddau diweithdra ac anweithgarwch yn uchel, a hefyd i fynd i’r afael â’r diffyg safleoedd cyflogaeth o safon uchel, am fod hynny’n rhwystr i dwf a buddsoddiad. Mae’r adroddiad yn cael fod tystiolaeth dda dros y ddau angen hyn. Mae hefyd yn cael bod angen buddsoddiad gan y sector cyhoeddus o achos methiant helaeth y farchnad, ble mae costau datblygu yn

uwch na’r gwerth ar y farchnad. Mae hyn yn rhwystro’r sector preifat rhag datblygu safleoedd masnachol newydd.

**Mae dyluniad y gweithrediad yn seiliedig ar theori newid gadarn**

2.5 Y prif ragdybiaethau yw y bydd modd cyflawni’r safleoedd, y bydd galw cryf yn y farchnad, ac y bydd y swyddi a gaiff eu creu yn hygyrch i bobl ddi-waith.

2.6 Roedd y dewis o safleoedd yn ffactor allweddol wrth bennu a yw’r rhagdybiaethau hyn yn rhai cadarn. Y gellid cyfiawnhau’r dewis o safleoedd ar y cyfan. Mae modd cyflawni’r holl safleoedd, ac mae tystiolaeth gref o alw’r farchnad. Yn ogystal, mae pob safle o fewn taith 30 munud mewn car i nifer fawr o geiswyr gwaith. Fodd bynnag, dylai’r timau cyflawni prosiect ystyried sut gall pobl sy’n byw mewn ardaloedd sydd â’r crynodiadau mwyaf gael mynediad i’r swyddi, a’r rheiny o bosibl yn ardaloedd ble mae’r cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus yn wael.

2.7 Cafodd y dewis o safleoedd ei ddylanwadu’n gryf gan yr angen i gyflawni’r gweithrediad erbyn diwedd cyfnod y rhaglen. Fodd bynnag, mae’n bosibl bod hyn wedi dod ar draul proses flaenoriaethu fwy trwyadl. Er enghraifft, mae’n debygol bod safleoedd ym Mhrifddinas-ranbarth Caerdydd a fyddai wedi cael effaith economaidd gryfach na Thŷ Du, er y cydnabyddir pwysigrwydd y safle hwn ar gyfer gwella mynediad i gyflogaeth.

2.8 Mae’r adroddiad hefyd yn nodi bod risg na fydd gweithgareddau’r prosiect yn ddigon i oresgyn methiant y farchnad. Mae tystiolaeth o ymyriadau blaenorol wedi dangos nad yw darparu seilwaith safle bob amser yn ddigon i ysgogi datblygiad safleoedd, er y bydd hyn yn dibynnu ar natur y datblygiad a’r costau adeiladu. Caiff hyn ei archwilio mewn mwy o fanylder yn y gwerthusiad terfynol.

**Mae’r gweithrediad ar y trywydd iawn i gyrraedd ei holl dargedau allbwn**

2.9 Hyd yn hyn, nid yw’r gweithrediad wedi cyflawni unrhyw allbynnau, ond mae hyn yn adlewyrchu natur y gweithrediad a’r ffaith y byddai allbynnau bob amser yn cael eu cyflawni tua’r diwedd. I gloi, mae'r gweithrediad wedi gwneud cynnydd da ac mae'r risg na fydd yn sicrhau ei dargedau allbwn erbyn diwedd cyfnod y rhaglen yn isel.

2.10 Mae’n debygol y bydd y gwaith yn Nhŷ Du a Bryn Cefni wedi’i gwblhau erbyn mis Tachwedd 2019. Bu oedi i’r gwaith yn Brocastle a Cross Hands ac ni fydd

y safleoedd hyn yn barod tan haf 2020. Fodd bynnag, mae'r risg y bydd oedi pellach yn isel ac mae'r timau cyflawni prosiect yn rheoli risgiau o'r fath.

**Mae'r systemau rheoli prosiect yn gadarn**

2.11 Mae'r prosesau rheoli prosiect yn gweithio'n dda ac wedi sicrhau bod y gweithrediad yn cael ei gyflawni'n effeithiol. Adroddwyd bod Rheolwr y Gweithrediad, sy'n goruchwylio'r gwaith o gyflwyno'r pedwar safle, yn rheolwr prosiect effeithiol a bod ganddi berthynas dda gyda'r timau sy'n arwaith ar y gwaith o gyflawni'r pedwar safle.

2.12 Mae'r trefniadau ar lefel safle hefyd wedi gweithio'n dda. Yn achos Tŷ Du a Brocastle, mae penodi ymgynghorwyr annibynnol i fonitro cynnydd a gwirio anfonebau wedi helpu i sicrhau bod y gwaith yn mynd yn ei flaen yn unol â'r amserlen, ei fod yn cael ei gyflawni yn ôl y dyluniad gwreiddiol a'r fanyleb wreiddiol, a bod costau'n cael eu rheoli. Deellir y bydd yr un dull yn cael ei ddefnyddio ar gyfer Cross Hands.

2.13 Nid oes ymgynghorwyr annibynnol wedi'u penodi ar gyfer Bryn Cefni am fod y prosiect yn llawer llai. Fodd bynnag, mae'r swyddogion yn Llywodraeth Cymru yn beirianwyr profiadol ac mewn sefyllfa dda i reoli'r berthynas â'r contractwr.

**Mae'r systemau monitro yn gadarn ac wedi ategu'r gwaith o gyflawni'r gweithrediad yn effeithiol**

2.14 Mae'r systemau a roddwyd mewn lle wedi'u teilwra i faint pob prosiect unigol. Yn achos Tŷ Du a Brocastle, mae contractwyr wedi darparu adroddiadau cynnydd rheolaidd ac wedi mynychu cyfarfodydd misol gyda'r Rheolwr Technegol. Mae hyn wedi rhoi gwybodaeth gynhwysfawr ar y cynnydd ar y prif dasgau, y risgiau i'r prosiect, anfonebu a chyfraniadau at y themâu trawsbynciol, ac wedi sicrhau goruchwyliaeth dda dros bob prosiect gan y Rheolwr Technegol. Defnyddir yr un dull ar gyfer Cross Hands.

2.15 Mae'r system fonitro ar gyfer Bryn Cefni wedi bod yn fwy anffurfiol gan ddibynnu ar gyfathrebu rhwng y contractwyr a'r Rheolwr Technegol. Mae hyn yn dderbyniol o ystyried mai ymyriad bach yw hwn, bod y risg yn isel, a'i fod yn cael ei gyflawni o fewn cyfnod o dri mis.

**Gwnaed cynnydd da o ran cyflawni amcanion Themâu Trawsbynciol**

2.16 Mae'r rhan fwyaf o'r cyfraniadau i Themâu Trawsbynciol wedi'u hymgorffori ym mhrosesau, safonau a gofynion Llywodraeth Cymru (cydymffurfio â safonau'r Gymraeg, sicrhau bod gan gontractwyr bolisïau cyfle cyfartal mewn

lle, dilyn canllawiau arferion gorau o ran dylunio’r uwchgynllun, a defnyddio prosesau caffael Llywodraeth Cymru er mwyn cyflawni buddion i’r gymuned).

2.17 Mae egwyddorion datblygu cynaliadwy wedi’u hymgorffori yn nyluniad pob safle, gan gynnwys cynnal neu wella seilwaith gwyrdd, hybu bioamrywiaeth a sicrhau y gellir cyrraedd y safleoedd ar drafnidiaeth gyhoeddus.

2.18 Mae’r graddau y mae SES wedi gallu sicrhau buddion ehangach i’r gymuned a threchu tlodi yn amrywio o safle i safle. Yn achos Tŷ Du a Brocastle (y ddau safle sydd wedi gwneud y cynnydd gorau) mae amrywiaeth o fesurau wedi’u rhoi ar waith a thargedau wedi’u cytuno gyda’r contractwyr. Roedd llai o gyfle i sicrhau’r buddion hyn yn achos Bryn Cefni oherwydd bod y prosiect yn un bach.

## 3. Argymhellion

### Cyflawni’r prosiect

- **Dylai Cross Hands ddilyn yr un dull o reoli a monitro prosiect â Thŷ Du a Brocastle**: Mae hyn yn cynnwys penodi ymgynghorydd annibynnol i oruchwylio’r gwaith ac adroddiadau monitro a chyfarfodydd cynnydd misol. Dylai'r amserlen gyflawni a ragwelir a'r gofrestr risg gael eu rhannu gyda'r Rheolwr Gweithrediad bob mis, gan godi materion a allai atal y prosiect rhag cyflawni ei dargedau allbwn.

- **Marchnata safleoedd gan dargedu meddianwyr a datblygwyr**. Dylid defnyddio’r uwchgynlluniau a ddatblygwyd i farchnata pob safle fel cyfleoedd datblygu gan ddefnyddio dulliau marchnata priodol. Ar gyfer y safleoedd llai (Bryn Cefni a Thŷ Du) gallai hyn fod wedi'i gyfyngu i hysbysebu mewn cyfnodolion eiddo masnachol a chyfnodolion lleol ac ennyn diddordeb datblygwyr sydd â hanes o gyflawni prosiectau tebyg. Ar gyfer y safleoedd mwy, argymhellir y dylid penodi asiantau masnachol i ddatblygu pamffledi a deunydd marchnata a allai gyrraedd cynulleidfa genedlaethol.

- **Timau Cyflawni Safle i archwilio'r potensial ar gyfer cyllid grant datblygu pellach neu drefniadau partneriaeth.** Yn absenoldeb diddordeb gan ddatblygwyr sector preifat, dylai swyddogion cyflawni arweiniol archwilio opsiynau eraill ar gyfer achosi datblygiad ar y safleoedd. Gallai hyn gynnwys ffynonellau cyllid lleol) yn ogystal ag unrhyw gyfleoedd cyllido yn y dyfodol gan yr olynydd i ERDF. Efallai y bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn ystyried ymrwymo i bartneriaeth gyda'r sector preifat i ddatblygu'r safleoedd.

- **Llywodraeth Cymru i bennu sut y gellir sicrhau hygyrchedd cyflogaeth mewn cymunedau difreintiedig i'r graddau mwyaf posibl**. Dylid datblygu cynlluniau ar gyfer sut y gall pobl sy'n byw mewn cymunedau difreintiedig gael mynediad i swyddi a grëir ar y safleoedd. Dylai'r rhain bennu cysylltiadau corfforol (h.y. cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus ag ardaloedd â chrynodiadau o hawlwyr a sut y gellid gwella'r rhain) ac unrhyw bosibilrwydd i weithio gyda rhaglenni'r farchnad lafur lleol sy'n helpu i leihau rhwystrau eraill i gael mynediad at gyflogaeth. Dylid gwneud hyn fel rhan o'r broses o ddatblygu Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol. Unwaith y sbardunir datblygiadau ar y safleoedd, dylai Swyddogion Arweiniol Cylenwi Eiddo annog meddianwyr i hysbysebu cyfleoedd gwaith yn lleol a gweithio gyda cholegau lleol i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen.

**Casglu data ar gyfer y gwerthusiad terfynol**

- **Monitro busnesau sy'n symud i mewn i eiddo newydd**. Unwaith y sbardunir datblygiadau ar y safleoedd (e.e. yn Nhŷ Du yn 2020), dylai Llywodraeth Cymru neu ei phartneriaid gofnodi manylion busnesau sy'n meddiannu eiddo. Yn ddelfrydol, dylai hyn gynnwys y sector, nifer y gweithwyr a'r cyfeiriad blaenorol. Os yn bosibl, dylai hyn hefyd gofnodi'r rheswm dros symud i eiddo newydd.

- **Dylid storio adroddiadau cynnydd a rhestrau wedi'u heitemeiddio o fuddion i'r gymuned**. Mae'r adroddiadau cynnydd a'r rhestrau wedi'u heitemeiddio o fuddion i'r gymuned yn rhoi tystiolaeth werthfawr ar gyfraniad y gweithrediad at y Themâu Trawsbynciol. Dylid cadw'r adroddiadau terfynol ar gyfer y gwerthusiad terfynol, ynghyd ag unrhyw dystiolaeth ategol sy'n ymwneud â thargedau buddion i'r gymuned.

Adroddiad Ymchwil Llawn: Chapman, O ac Evans, N (2020). Gwerthusiad o Safleoedd Cyflogaeth Strategol: Adroddiad Interim. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR 12/2020
Ar gael yn: https://llyw.cymru/gwerthuso-safleoedd-cyflogaeth-strategol-adroddiad-interim

Safbwyntiau'r ymchwilwyr ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

Katy Marrin
Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru, Parc Cathays
Caerdydd, CF10 3NQ

E-bost: Katy.Marrin@llyw.cymru

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-80038-108-7